

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 109

Key Language

beth + mutated verbal noun
cyntaf ag
wrth fodd

New Words

nefoedd	heaven
eithaf	quite
amloggfa	crematorium
chwarae teg	fair play
cythryblus	troubled
blynyddau	years (plural of blwyddyn)
mynd yn ffradach	to go to pieces, topsy turvy
cuddio	to hide
sach gysgu	a sleeping bag
nunlle	nowhere
trafod	to discuss
dim clem	no idea
llety	lodgings
dod o hyd i	to find
serchus	friendly
erfyn am	to pray for
o fath yn y byd	of any kind (literally of a kind in the world)
strywan (SW)	to destroy (form of distrywio)
gwres canolog	central heating
moethus	luxurious
bwced	a bucket
diffodd	to put out, to extinguish
fflachlamp	a torch
rhagor	more
moddion (SW)	medicine
pydru ymlaen	to plod on
Cartref Hen Bobl	Old People's Home
atgofion	memories
yn llifo	to flow
dyddiaduron	diaries
cydymdeimlo	to sympathise
difyr	interesting
ar gyfer	for
llogi	to hire
union	exactly
wrth fodd	delighted
tynfa	attraction
gweld eisiau	to feel a loss; literally to see a need
o fewn dim	in a jiffy; literally within nothing
toc	soon
cwato (SW)	to hide
byth bythoedd	for ever and ever
llosgi'n ulw	to burn to the ground; literally as bits
lludw	ashes

When Arwyn calls on Wendy a second time and tells her he knows about the DNA tests to settle the question of Frank's dubious paternity, she gets very angry.

Wendy - This is none of your business and Jenny Saunders had no right to divulge sensitive information...

Arwyn - Roedd ganddi bob hawl i ddweud hynny wrthyf i, Wendy. Achos rwyt ti'n gwybod pam. Fi ydi tad Frank.

In the meantime, Brian informs Wendy that Chris has escaped from the psychiatric unit yet again.

Brian - Mae o wedi dianc o uned seiciatrig yr ysbyty ac mae o ar y 'run'.

Main Grammatical Points

Michelle asks Brian 'Beth wyt ti'n feddwl oedd e'n feddwl?'

Normally the verb doesn't mutate after 'Wyt ti'n?'. You'd say 'Wyt ti'n mynd?' not 'Wyt ti'n fynd?'. But in a question beginning with 'Beth', or its abbreviated form 'Be', the verb must have a soft mutation. So Michelle asks quite correctly, 'Beth wyt ti'n feddwl?'

This rule applies to other persons as well. So you'd say:

Beth ydych chi'n ddeud? What are you saying?

Beth mae Brian yn weld? What does Brian see?

When Chris asks Brian why he'd taken so long to come, he replies

Brian - Mi ddoish i gynta' ag ô'n i'n gallu . . . (Mi ddois i gyntaf ag oeddwn i'n gallu...)

You've already learnt 'cyntaf' meaning 'first', but *cyntaf* can also be used with the meaning 'as soon as'. So when Brian says, 'Mi ddoish i gynta' ag o'n i'n gallu', he means he came as soon as possible, not he was the first to come.

Another idiom with *cyntaf* is 'gorau po gyntaf', which means 'the sooner the better'.

Brian tells Arwyn how much Jenny had enjoyed her recent trip to Africa.

Brian - Dywedodd Jenny ei bod hi wedi cael amser wrth ei bodd draw yn Affrica efo chdi...

Arwyn - Dw i'n cael amser wrth fy modd yn Affrica hefyd...

In that conversation, you heard 'wrth ei bodd' and 'wrth fy modd'. This is a very common idiom meaning 'delighted', or literally 'at one's pleasure'. It has the normal mutations you'd use after *fy*, *dy* and *ei* meaning 'my', 'your' 'his' and 'her'.

So, if referring to yourself, you'd have to say 'wrth fy modd', meaning 'I'm delighted'. But if you were reporting that Arwyn, or any other man, was delighted, you'd have to say 'wrth ei fodd'. When referring to women or the plural in general there's no need to mutate. So you'd say, 'Mae Jenny wrth ei bodd', 'Maen nhw wrth eu bodd'. Stick to 'bodd'. I'm sure you'll be 'wrth eich bodd' to hear that!

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 324

Brian visits Chris in his hiding hole but Chris demands a better place to hide.

Arwyn goes to the Yacht Club. His enigmatic comments to Michelle about Brian and Wendy's relationship have her bursting with curiosity.

Geirfa

nefoedd	heaven
eithaf	quite
amlosgfa	crematorium
chwarae teg	fair play
cythryblus	troubled
blynyddau	years (plural of blwyddyn)
mynd yn ffradach	to go to pieces, topsy turvy
cuddio	to hide
sach gysgu	a sleeping bag
nunlle	nowhere

Golygfa 1

Arwyn - Iechyd da!

Michelle - Ie...lechyd da...

Arwyn - I mam annwyl...Gobeithio ei bod hi wedi cyrraedd lan yna yn y nefoedd...

Michelle - Dw i'n siwr ei bod hi...

Arwyn - Roedd y capel yn agos iawn at ei chalon hi.

Michelle - Wel...Gwnaeth eithaf 'crowd' droi mas yn yr...beth yw 'crematorium' hefyd?

Arwyn - Amlosgfa.

Michelle - Amlosgfa, ie...Pretty full actually...

Arwyn - Buodd pobl yn garedig iawn, chwarae teg...

Michelle - Mmmmmmm....

Arwyn - Yn enwedig Jenny...A Brian hefyd...

Michelle - Mae Brian yn O.K. guy...

Arwyn - Ydy - mae e...Er - wedi dweud hynny, mae Brian yn fachgen sydd wedi cael bywyd cythryblus iawn hefyd...

Michelle - What's cythryblus?

Arwyn - Troubled.

Michelle - Pam wyt ti'n dweud hynny, ynteu?

Arwyn - Buodd e'n briod gyda Sister Agnes Rees am flynyddau...Dau o blant gyda nhw...Rhodri a Beca...Ac wedyn, fe aeth pethau'n ffradach...

Michelle - Pan aeth e off gyda Wendy Keating?

Arwyn - Ie...A dydy'r berthynas rhwng Brian a Wendy ddim wedi bod yn fêl i gyd...Maen nhw ill dau wedi cael amseroedd digon cythryblus hefyd...

Michelle - Ond mae dau blentyn gyda nhw...

Arwyn - Mmmmmmm.

Michelle - 'Mmmmmmm' what? Pam ddywedaist ti 'Mmmmmmm' fel yna?

Arwyn - Dim...

Michelle - Beth?

Arwyn - Dim.

Michelle - Beth wyt ti'n (ei) guddio, Arwyn?

Arwyn - Dim...

Michelle - What?

Arwyn - Michelle...!

Michelle - You implying that Wendy has been playing away? You are, aren't you? Come on. You know something I don't...What? I won't tell. Cross my heart.

Arwyn - Does dim byd gyda fi i'w ddweud. O ddifrif nawr...

Michelle - Sooner or later, I'll find out...

Arwyn - Dydw i ddim yn meddwl y gwnei di...

Michelle - I'm really nosey...And no gossip passes me by...

Golygfa 2

Brian - Pisst! Chris? Fi sydd yma...

Chris - Ble wyt ti wedi bod?

Brian - Sori...Roeddwn i'n brysur yn y garej...

Chris - Ddest ti â bwyd i fi? Did you bring me some grub? I'm starving...

Brian - Dyma chdi...Biti am y glaw yma...

Chris - Yeah...

Brian - Wyt ti'n gallu cadw'n sych?

Chris - You must be kidding...Feel that sleeping bag...Na! Ddim y pen yna...Y pen arall...Where my feet go...See?

Brian - Bydd rhaid imi ddod â sach gysgu arall i chdi...

Chris - Na...

Brian - Na? Beth wyt ti'n (ei) feddwl 'Na?'

Chris - Don't bring me another sach gysgu....

Brian - Dwyt ti ddim eisiau dal niwmonia wyt ti?

Chris - Na...A dyna pam dw i am i ti ffeindio rhywle arall i fi fyw...

Brian - Ddim rwan, Chris - fedraf i ddim...

Chris - It's freezing cold here, man...

Brian - Mae'r heddlu'n dal i chwilio amdanach chdi ym mhobman...Fuasai hi ddim yn saff i chdi symud i rywle arall...Ddim ar hyn o bryd - no way...

Chris - Brian, dydw i ddim yn mynd i hala noswaith arall in this stinking hell hole of a cowshed in the middle of nowhere...Glywaist ti beth ddywedais i?

Brian - A glywaist di beth ddywedais i hefyd...Dydy hi ddim yn saff i chdi symud i nunlle arall...Ddim ar hyn o bryd...

Chris - You'll have to - or I'm going to give myself up...

Brian - Na, na! Does dim eisiau i chdi wneud hynny...

Chris - Dyna beth dw i'n mynd i'w wneud - os wnei di ddim ffeindio lle arall i fi fyw...

Brian - lawn, iawn, O.K. Rho gyfle imi...Bydd rhaid imi gael amser i feddwl...

Chris - O.K. Mae gyda ti tan bore yfory...Deall?

Brian - Ydw...

Chris - Then I'm off....

Brian - Dwyt ti ddim i fynd i unman arall cyn gwneud beth wyt ti a fi wedi cytuno arno fo. Yn ôl yn yr ysbyty? Wyt ti'n cofio?

Chris - Ydw...

Brian - Rwyd ti wedi addo fy helpu fi, Chris...Dyna oedd y 'deal'! Achos fy mod i wedi dy helpu chdi i ddianc...

Chris - Paid â becsu...Elli di fy nhrystio fi, Brian. I won't let you down, man...

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 325

Brian promises to move Chris to a new hiding place.

Arwyn meets Wendy in the street but she's not too keen to talk to him.

Meanwhile, Michelle and Brian get chatting about the week's events.

Gerifa

trafod	to discuss
dim clem	no idea
llety	lodgings
dod o hyd i	to find
serchus	friendly
erfyn am	to pray for
o fath yn y byd	of any kind (literally of a kind in the world)
strywan (SW)	to destroy (form of distrywio)
gwres canolog	central heating
moethus	luxurious
bwced	a bucket
diffodd	to put out, to extinguish
fflachlamp	a torch
rhagor	more
moddion (SW)	medicine

Golygfa 1

Brian - Beth?

Michelle - Only repeating what he said.

Brian - Arwyn?

Michelle - Ie...

Brian - Wel dywed eto...

Michelle - Roedd e i mewn yma ddoe...Ac roedd e'n dy drafod ti...

Brian - Fy nhrafod i sut?

Michelle - Dweud ei fod e'n meddwl dy fod ti'n foi O.K....Ond wedyn...Gwnaeth e'r comment cryptic yma...

Brian - Cryptic? Beth wyt ti'n (ei) feddwl? Beth yn union ddywedodd o?

Michelle - Give me a minute...Let me try and get my tongue around this now - right? Hold on...Ar ôl tri...Un, dau, tri...Here goes...He said that you and Wendy...Dy fod ti a Wendy wedi cael 'amseroedd digon cythryblus.'

Brian - O leiaf dw i yn gwybod mai Arwyn ddywedodd hynny...Dim ond fo sy'n siarad Cymraeg **fel yna!** Cythryblus, wir!

Michelle - Straight from the horse's mouth...Beth wyt ti'n (ei) feddwl oedd e'n(ei) feddwl, ynteu?

Brian - Dim clem. Ac wyt ti'n gwybod beth? Does dim ots gen i. Rwan fy mod i efo chdi...

Michelle - A sut mae Chris?

Brian - Cwyno am ei lety.

Michelle - Where are you hiding him?

Brian - Yn rhywle na ddaw yr heddlu fyth o hyd iddo fo.

Michelle - Is he going to do what you've asked him?

Brian - Ydy. A dyna fydd diwedd busnes Jac Whelan. Am byth.

Golygfa 2

Arwyn - Helo Wendy...

Wendy - Ie? Beth wyt ti eisiau?

Arwyn - Dim ond bod yn serchus...Dim ond dymuno 'prynhawn da' i ti...Dyna'r cyfan...

Wendy - Reit. Wel. I'm busy y prynhawn yma. I've got to pick up Vicky from a friend's house...

Arwyn - Ydy hi yn yr Ysgol Feithrin trwy'r dydd?

Wendy - Na. Mornings only...Anyway, I'd better push off...
 Arwyn - A Frank bach yn cysgu'n dawel heb ofal o fath yn y byd...?
 Wendy - Arwyn - don't.
 Arwyn - Fy mab i. Yr un peth roeddwn i wedi erfyn amdano fe ers blynyddau...Roedd Jenny a fi'n ffaelau cael plant...Er inni dreul popeth...A nawr, rwy'ti wedi rhoi mab bach i fi...
 Wendy - Arwyn...Look...You and I need a serious talk...But I can't now....
 Arwyn - Pryd ynteu...?
 Wendy - Why does my life always resemble a motorway pile-up?
 Arwyn - Ti a Brian...Dydych chi ddim yn hapus...Gallaf i ddweud...
 Wendy - Rydyn ni yn hapus...Pwy ddywedodd doedden ni ddim yn hapus? Jenny?
 Arwyn - Na...
 Wendy - Pwy ynteu?
 Arwyn - Dim ond holi oeddwn i...
 Wendy - Or that bitch Michelle from the Yacht Club? She's always had an eye for Brian; always had the hots for him...But she's not going to get her bright pink tarty fingernails into my man's flesh...
 Arwyn - Ddim Michelle ddywedodd.
 Wendy - Mae Brian a fi'n O.K...So that's why I don't want anything to destroy us...Wyt ti'n deall?
 Arwyn - So fe'n fwriad o fath yn y byd gyda fi i strywan eich perthynas chi...Onest, Wendy -dyna'r peth diwethaf fyddwn i'n (ei) wneud...

Golygfa 3

Brian: Chris...
 Chris - Ble uffern wyt ti wedi bod?
 Brian - Mi ddois i gyntaf ag oeddwn i'n gallu...
 Chris - Get that torchlight out of my face...!
 Brian - Sori...
 Chris - Brian, dydw i ddim yn mynd i aros yn y fan hyn heno!
 Brian - Does dim rhaid i chdi. Dyna pam dw i wedi galw...
 Chris - Ble wyt ti'n mynd a fi, ynteu?
 Brian - Hel dy bethau at ei gilydd a phacia nhw...
 Chris - Rhywle cynnes, gobeithio...
 Brian - Cynnes iawn. Gwres canolog.
 Chris - A bath?
 Brian - Na, ddim cweit mor foethus â hynny...
 Chris - Sinc yneu?
 Brian - Na...
 Chris - But I'm so filthy...Can't stop scratching...
 Brian - Paid â phoeni, mi ddof i â phwced o ddŵr poeth i chdi...
 Chris - Dw i'n falch fy mod i'n gadael y twll hyn ynteu beth...
 Brian - Dw i'n mynd i ddiffodd golau'r fflachlamp yma rwan...Dydw i ddim eisiau i neb ein gweld ni'n croesi'r caeau...
 Chris - Na...A Brian? Wyt ti wedi dod â rhagor o foddion i fi?
 Brian - Naddo.
 Chris - Without my medicine, you know that I could flip, man...You do know that - don't you?
 Brian - Ydw. Ond paid â phoeni, mi ddof i â nhw i chdi bore yfory....Yn bendant...
 Chris - You better had...

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 326

Brian and Michelle are still having an affair. He tells her exactly where Chris is hiding and also reveals to her the nature of his revenge against Jac.

Meanwhile Arwyn tells Brian of his love of Africa but admits that he misses his family.

Gerifa

pydru ymlaen (NW)	to plod on
Cartref Hen Bobl	Old People's Home
atgofion	memories
yn llifo	to flow
dyddiaduron	diaries
cydymdeimlo	to sympathise
difyr	interesting
ar gyfer	for
llogi	to hire
union	exactly
wrth fodd	delighted
tynfaf	attraction
gweld eisiau	to feel a loss; literally to see a need
o fewn dim	in a jiffy; literally within nothing
toc	soon
cwato (SW)	to hide
byth bythoedd	for ever and ever
llosgi'n ulw	to burn to the ground; literally as bits
lludw	ashes

Golygfa 1

Brian - Howdi-dw...!
Arwyn - Sut mae hi heddiw, ynteu?
Brian - Dal i bydru ymlaen. A chdi?
Arwyn - Wedi bod draw yn y Cartref Hen Bobl yn mynd trwy bethau mam druan...
Brian - Hen fusnes cas...
Arwyn - Ydy...Mae'n rhaid dweud bod yr atgofion yn llifo yn ôl wrth ddarllen ei dyddiaduron hi...
Brian - Dw i'n cofio pan fu farw fy nhad...
Arwyn - Beth?
Brian - Dim. Jest...Dw i'n gwybod bod hwn yn hen amser digon anodd i chdi...A dw i yn cydymdeimlo efo chdi, Arwyn...
Arwyn - Diolch, Brian. A diolch am ddod draw i'r amlogfa ddydd Llun...Roedd hi'n braf gweld cymaint o hen wynebau wedi dod at ei gilydd...
Brian - Oedd...Mi ges i lot o sgysiau digon difyr yn y Western Vaults wedyn...Pwmp chwech?
Arwyn - Ie. Topio'r tanc lan ar gyfer y daith yn ôl i Stansted ydw i...
Brian - Yn y fan honno wnest ti logi'r car?
Arwyn - Ie...A dyna ble dw i'n mynd â fe yn ôl...ddydd lau nesaf...Wythnos union i heddiw...
Brian - A dal awyren i Nairobi?
Arwyn - Ie...
Brian - Dywedodd Jenny ei bod hi wedi cael amser wrth ei bodd draw yn Affrica efo chdi...
Arwyn - Dw i'n cael amser wrth fy modd yn Affrica hefyd...Er fy mod i weithiau yn teimlo tynfaf ofnadwy o gryf i fod yn ôl yma hefyd...Ac yn fwy fyth nawr...Hiraeth, rwy'ti'n gwybod.
Brian - Gweld eisiau dy deulu wyt ti?
Arwyn - Ie. Gweld eisiau fy nheulu. Dyna'n gymwys beth dw i'n ei golli mas yn Affrica.

Golygfa 2

Michelle - Who is it? Not Wendy?
Brian - Ie...

Michelle - Ignore her, Brian...You should have switched your mobile off before you got into bed...

Brian - Well i mi ei hateb hi...Neu wneith hi ond ffonio a ffonio...

Michelle - Faint o'r gloch yw hi?

Brian - Chwarter wedi chwech...

Michelle - Dw i fod yn yr Yacht Club am saith. For the evening shift...

Brian - Paid â symud tra dw i ar y ffôn...lawn?

Wendy - Ble wyt ti wedi bod? Pam na fyddet ti wedi ateb yn gynt?

Brian - Yn y car ydw i...Roedd yna gar heddlu reit tu ôl imi...Gwnes i dynnu i mewn i lay-by...

Wendy - Ar dy ffordd adref wyt ti?

Brian - Ie...Pam? Beth sydd?

Wendy - It's getting dark outside...

Brian - Dydy hi ddim mor dywyll â hynny...

Wendy - Those trees outside block out the sunlight...

Brian - Byddaf i yn ôl o fewn dim rwan. lawn?

Wendy - Don't be long...Wyt ti'n addo? Paid â bod yn hir?

Brian - Fyddaf i ddim yn hir...

Wendy - This house gives me the creeps, Brian...We've got to sell up and move...Wyt ti'n clywed?

Brian - Wendy...gwelaf i chdi toc. lawn?

Michelle - Well i fi fynd i'r gwaith hefyd...

Brian - A well i mi wisgo...

Michelle - Ble mae Chris erbyn hyn?

Brian - Yn byw mewn 'attic'.

Michelle - 'Attic' ble?

Brian - Yr 'attic' sydd yn fy nhŷ i.

Michelle - Beth? Your house?

Brian - Cystal lle ag unman.

Michelle - Ydy Wendy yn deall fod Chris yn cwato yn yr 'attic'?

Brian - Na...

Michelle - Wyt ti heb ddweud wrthi?

Brian - Mae'n well nad ydy hi ddim yn gwybod. Ond fydd Chris ddim yn yr 'attic' yn hir...Achos yr wythnos nesaf mae o'n mynd i ddysgu gwrs i Jac Whelan...Gwers fach na wneith Whelan byth bythoedd ei anghofio chwaith...

Michelle - Beth yn gymwys fydd y wers hyn, ynteu?

Brian - Llosgi ei garej o i'r llawr.

Michelle - With all that petrol under ground?

Brian - Mi losgith gymaint â hynny'n gynt oni wneith?

Michelle - Isn't that a bit risky?

Brian - Ydy. Uffernol o risky. Ond dydw i ddim eisiau dim i fod yno ar ôl y tân. Dw i eisiau i fusnes Jac losgi'n ulw a throi yn lludw...

Michelle - A Jac...? Will he also go up in these flames?

Brian - Os ydy o'n ddigon gwirion i fod yno pan eith y lle ar dân. Fydd gen i mo'r help am hynny - na fydd?

Michelle - And you'll have a cast iron alibi?

Brian - Wrth gwrs...

Michelle - And Chris alone gets done?

Brian - Mae o'n scitsoffrenig boncyrs onid ydy?

Synopsis

Arwyn indicates to Michelle that Wendy and Brian have a troubled relationship.

But Brian's relationship with Wendy isn't the only problem he's got at the moment. Chris isn't happy with the hiding place Brian's found for him and wants to move. Brian, however, explains it wouldn't be safe.

Test yourself

1. What is the correct mutation in the following sentence, meaning 'Catrin's delighted/Catrin loves to listen to Ysbyty Brynaber'?
 - (a) Mae Catrin wrth ei modd yn gwrando ar Ysbyty Brynaber.
 - (b) **Mae Catrin wrth ei bodd yn gwrando ar Ysbyty Brynaber.**
 - (c) Mae Catrin wrth ei fodd yn gwrando ar Ysbyty Brynaber.
2. How would you ask someone politely to open the window?
 - (a) Fyddwch chi'n agor y ffenestr, os gwelwch yn dda?
 - (b) **Wnewch chi agor y ffenestr, os gwelwch yn dda?**
 - (c) Tasech chi'n agor y ffenestr, os gwelwch yn dda?
3. What is the equivalent of the phrase 'at this point of time'?
 - (a) ar hyn o amser
 - (b) ar hyn o adeg
 - (c) **ar hyn o bryd**
4. What is the correct mutation in the following slogan - 'Wales for ever/Long live Wales'?
 - (a) Cymru am fyth
 - (b) **Cymru am byth**
 - (c) Cymru am myth
5. Which verb is used for 'to put out a light'?
 - (a) **diffodd golau**
 - (b) difetha golau
 - (c) dylifo golau
6. As *cymaint* is to *mawr*, so ----- is to *da*.
 - (a) cyfartal
 - (b) cystadleuol
 - (c) **cystal**

